



Cyfarfod

PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG

Dyddiad ac Amser

5.30 y.h., DYDD MERCHER, 11EG HYDREF, 2017

Lleoliad

Y Ganolfan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9LU

Pwynt Cyswllt

Bethan Adams

01286 679020

BethanAdams@gwynedd.llyw.cymru

(DISTRIBUTED 4/10/17)

AELODAETH:

Cyngor Gwynedd:

Cynghorydd E. Selwyn Griffiths
Cynghorydd Alwyn Gruffydd
Cynghorydd Nia Wyn Jeffreys

Aelod Lleol
Aelod Lleol
Aelod Lleol

Aelodau Cyfetholedig:

Cynghorydd Jason Humphreys
David Mclean
David Eastwood
Dr John Jones-Morris
Ian Roberts
Robert Owen
Peter Lunt Williams

Cynrychioli Cyngor Tref Porthmadog
Cynrychioli Buddiannau Perchenogion Tir
Cynrychioli Buddiannau Harbwr
Cynrychioli Buddiannau Hamdden
Cynrychioli Buddiannau Diwydiannol
Cynrychioli Buddiannau Masnachol
Cynrychioli Sefydiad y Bad Achub Cricieth

Sylwedyddion:

Cynghorydd Ioan Thomas
I'w gadarnhau
I'w gadarnhau
I'w gadarnhau

Aelod Cabinet Datblygu'r Economi
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli

RHAGLEN

1. CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd am 2017/18.

2. IS-GADEIRYDD

I ethol Is-Gadeirydd am 2017/18.

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

5. MATERION BRYD

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

6. COFNODION

4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2017, fel rhai cywir.

7. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

7 - 25

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.

8. ETHOL SYLWEDYDDION

I ethol sylwedyddion i wasanaethu ar y canlynol –

- a) Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi
- b) Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw
- c) Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli

9. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

I nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog ar 7 Mawrth 2018.

PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG 8/3/17

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Selwyn Griffiths (is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Jason Humphreys (Cyngor Gwynedd), ynghyd â Gavin Buckley (Cynrychiolydd Cyngor Tref Porthmadog), Dr John Jones-Morris (Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden), Robert Owen (Cynrychiolydd Buddiannau Masnachol) a Peter L. Williams (Cynrychiolydd Sefydliad y Bâd Achub).

HEFYD YN BRESENNOL: Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Llŷr B Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned), Arthur Francis Jones (Uwch Swyddog Harbyrau), Malcolm Humphreys (Harbwr Feistr Porthmadog) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies (Aelod Cabinet – Economi).

1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 12 Hydref, 2016, fel rhai cywir.

Cyfeiriodd Cynrychiolydd Sefydliad y Bâd Achub at gefnogaeth yr aelodau i gynnal archwiliad diogelwch o ardaloedd aber y Glaslyn a Thraeth y Graig Ddu a chael sgwrs ddilynol i edrych ar sut y gellir gwella'r sefyllfa o fewn yr adnoddau. Amlygodd bod y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig wedi cadarnhau y byddai'n cysylltu efo Sefydliad y Bâd Achub yng nghyswllt archwiliad diogelwch. Mynegodd ei anfodlonrwydd nad oedd hyn wedi ei weithredu a bod y Swyddog wedi nodi ym mis Ionawr y byddai swyddogion y gwasanaeth yn cwblhau'r archwiliad diogelwch. Nododd ei fod wedi anfon e-bost at yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned ond nid oedd wedi derbyn ymateb.

Amlygodd y Cadeirydd mai Pwyllgor Ymgynghorol oedd y Pwyllgor ac felly nid oedd rheidrydd i'r swyddogion weithredu.

Nododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned ei fod yn gwerthfawrogi sylwadau Cynrychiolydd Sefydliad y Bâd Achub ac yn derbyn ei bryderon. Nododd y ceisir osgoi gwneud nifer uchel o archwiliadau oherwydd yr adnoddau prin a'r tebygolrwydd ni ellir gweithredu mesurau i liniaru'r risg. Pwysleisiodd bod y Cyngor yn croesawu mewnbwn partneriaid gan gynnwys Sefydliad y Bâd Achub ac yn cydweithio efo'r sefydliad o ran lliniaru risgiau yn Abermaw. Ymddiheurodd nad oedd y cynrychiolydd wedi derbyn ymateb i'w e-bost ac fe fyddai'n rhoi ystyriaeth i'r e-bost.

Mewn ymateb i sylw gan aelod y byddai'n ddefnyddiol derbyn mewnbwn gan Sefydliad y Bâd Achub o ran Porthmadog, nododd Uwch Reolwr Economi a Chymuned bod y Gwasanaeth yn blaenoriaethu o ran risg.

Nododd yr aelod ei siomedigaeth na ofynnwyd am fewnbwn Sefydliad y Bâd Achub o ran yr archwiliad o ardaloedd aber y Glaslyn a Thraeth y Graig Ddu, gan nodi y gallai'r Cyngor rhoi ystyriaeth i'r materion a amlygir gan y Sefydliad a blaenoriaethu'r hyn oedd angen i wneud i liniaru'r risgiau.

Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod y Gwasanaeth yn cymryd i ystyriaeth barn y Pwyllgor Ymgynghorol. Adroddwyd bod swyddogion profiadol y Gwasanaeth wedi cynnal archwiliad ac o ganlyniad yn y broses o osod mwy o arwyddion yn yr ardal yn ogystal ag adolygu taflenni gwybodaeth a roddir i ddefnyddwyr y traeth yn pwysleisio'r risg o ran Banc y Gogledd.

Nododd Cynrychiolydd Sefydliad y Bâd Achub bod y sefydliad eisiau parhau i gyd-weithio efo'r Gwasanaeth ac yn cynnig cynorthwyo ym Mhorthmadog fel y gwneir yn Abermaw a Thywyn. Ychwanegodd ei fod yn cydnabod bod arbenigedd yn y Gwasanaeth ond yn anfodlon nad oedd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig wedi cysylltu â Sefydliad y Bâd Achub wedi iddo gadarnhau yn y cyfarfod diwethaf y byddai'n cysylltu.

Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod asesiad risg wedi ei gwblhau gan Sefydliad y Bâd Achub o ardal Morfa Bychan dwy flynedd yn ôl a ni ystyrir ei fod yn amserol i ail-ymweld.

Cadarnhaodd yr Harbwr Feistr bod arwydd newydd (unol â dyluniad Sefydliad y Bâd Achub) wedi ei osod yn Lôn Gwydryn ac fe osodir 3 arwydd arall, yn ogystal ag arwydd ym Mhorth y Gest a oedd yn cynnwys y tabl llanw.

Nododd aelod ei fod yn ddefnyddiol i'r Cyngor dderbyn barn gan sefydliadau allanol ac fe ddylid ei groesawu.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod parthed y diweddaraf ar gynllun Clwb Hwyllo Porthmadog i osod pontwns ar wal yr Harbwr, nododd Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden bod gwaith ymchwil ac asesu yn parhau.

3. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

Tywysodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yr aelodau drwy'r adroddiad, gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:

- Ni dderbyniwyd sylwadau o ran y Côt Diogelwch Morwrol yn y cyfnod ers y cyfarfod diwethaf.
- Roedd y Gwasanaeth yn mawr obeithio derbyn adolygiad gan arbenigwr allanol Asiantaeth Gwylwyr y Glannau ym mis Ionawr. Yn anffodus, oherwydd diffyg capasiti nid oedd yr archwiliad wedi ei gynnal ac roedd y Gwasanaeth yn disgwyl i ail drefnu'r adolygiad. Rhagwelwyd y cynhelir yr adolygiad ym mis Medi 2017.
- Cynhelir archwiliad manwl gan archwilwyr Awdurdod Goleudai Tŷ'r Drindod ar yr 31ain o Orffennaf 2017. Nodwyd oherwydd y buddsoddiadau diweddar rhagwelir y byddai'r adroddiad yn cadarnhau parhad mewn gwelliant yng nghyflwr a lleoliadau Cymhorthion Mordwyo Harbwr Porthmadog.
- Bod 2 Rybudd i Forwyr mewn grym yn Harbwr Porthmadog. Roedd y rhybudd yn gyfredol ar gyfer Bwi Rhif 1 (Traethell) - oedd ddim ar ei safle (rhybudd rhif 10.). Nid oedd cymhorthydd Bwi Rhif 3 (rhybudd rhif 9) ar ei safle ac fe rybuddir morwyr i fordwyo gyda gofal yn yr ardal hon hyd fydd y cymhorthion wedi eu hail leoli ar eu safle cywir. Nodwyd yr hysbyswyd Tŷ'r Drindod o'r sefyllfa ym Mhorthmadog drwy system PANAR yn unol â'r gofynion.
- Bod sianel fordwyo Harbwr Porthmadog wedi newid yn sylweddol yn ystod yr wythnosau diwethaf yn enwedig yn ardal Cwt Powdwr. Nodwyd bod y Gwasanaeth yn archwilio'r sianel yn rheolaidd ar lanw isel er ceisio sicrhau fod y cymhorthion mordwyo yn y lleoliad fwyaf addas. O ganlyniad i'r newid cyson yn y sianel, roedd sicrhau fod y cymhorthion yn eu safle cywir yn heriol.
- Fel yr adroddwyd yn y cyfarfod diwethaf, ymestynnwyd cyfnod cyflogaeth 2 Cymhorthydd Harbwr at ddiwedd mis Rhagfyr 2016 er sicrhau cefnogaeth a pharhad i'r gwasanaeth ar draws y Sir. Nodwyd yr ymestynnwyd cyfnod y swyddi ymhellach

hyd at ddiwedd mis Mawrth 2017 ar drefniant tri diwrnod yr wythnos. Adroddwyd yr hysbysebwr y swyddi Cymhorthyddion Harbwr ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2017 i 30 Medi 2017.

- Diogelwyd cwch a adawyd i ddirywio ger Cei Balast a fe'i symudwyd i ardal y llithrfa. Nodwyd bod y Gwasanaeth yn cysylltu gyda'r perchennog gan dynnu sylw bydd yn fwrriad gwerthu neu waredu'r cwch oni bai bod y cwch yn cael ei chludo o'r Harbwr yn ystod y ddeufis nesaf. Nodwyd os oedd yr aelodau yn ymwybodol o unrhyw brosiectau a fyddai'n dymuno derbyn y cwch iddynt gysylltu â'r Gwasanaeth.
- Y sefyllfa gyllidebol hyd at ddiwedd Ionawr 2017, gan nodi na ragwelir y cyrhaeddir y targed incwm ar gyfer y flwyddyn ariannol.
- Y byddai cwch newydd o wneuthuriad 'Powercat' yn cael ei leoli ym Mhorthmadog.
- Bod ffioedd drafft Harbwr Porthmadog ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18 wedi eu cyflwyno yn y cyfarfod diwethaf, cadarnhawyd y bwriedir cynyddu'r ffioedd 2% ar gyfartaledd er cwrdd â her cyllideb a tharged incwm y gwasanaeth. Eglurwyd y byddai'r Aelod Cabinet - Economi yn cadarnhau'r ffioedd erbyn diwedd Mawrth 2017.
- Bod rhaid i'r Cyngor ychwanegu ffi am bob angorfa ym mhob Harbwr o dan reolaeth y Cyngor yn 2017. Eglurwyd bod y ffi wedi ei ychwanegu gan Ystad y Goron a fyddai'n hawlio £25.00 am bob angorfa yn yr Harbwr. Nodwyd bod gofyn ar y Cyngor, fel yr Awdurdod Harbwr, i godi a chasglu'r ffi ar ran Ystad y Goron. Ychwanegwyd bod y ffi ychwanegol hefyd yn daladwy am angorfeydd ymwelwyr ac fe fydd gofyniad i'r taliad hwn gael ei ariannu drwy gyllideb yr Harbwr.

Croesawyd yr Uwch Swyddog Harbyrau yn ôl yn dilyn cyfnod o salwch.

Manylodd yr Harbwr Feistr ar y rhaglen waith cynnal a chadw. Nododd aelodau bod y mesurau rheoli o ran atal ceir rhag parcio ar y man storio cychod ym Mhorth y Gest wedi gwella'r sefyllfa.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod o ran cysoni ffi Tollau Harbwr fel nad oedd gwahaniaeth rhwng Ffi Leol a Ffi Eraill, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig er bod cysoni o ran y ffi Tollau Harbwr, bod disgownt yn parhau i drigolion lleol o ran y ffioedd eraill. Nodwyd er bod cynnydd ffioedd Borth y Gest yn uwch na chwyddiant y credir ei fod yn rhesymol.

Mewn ymateb i sylw gan aelod, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod galw am angorfeydd parhaol yn lleihau gyda nifer ymwelwyr yn cynyddu ac fe edrychir ar ffyrdd i ddenu mwy o gwsmeriaid. Cadarnhaodd yr Harbwr Feistr bod 76 unigolyn wedi cadarnhau angorfa parhaol a oedd gyfystyr a 50% o'r ddarpariaeth ar gael. Ychwanegodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod rhai unigolion ddim yn cadarnhau tan fis Mai.

PENDERFYNWYD nodi a derbyn yr adroddiad.

5. CYFARFOD NESAF

Nodwyd y caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ar 11 Hydref, 2017.

Dechreuodd y cyfarfod am 5.30pm a daeth i ben am 6.20pm

CADEIRYDD

Eitem 7

CYFARFOD	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog
DYDDIAD	11 Hydref 2017
TEITL	Diweddariad ar Faterion Rheolaethol yr Harbwr
AWDUR	Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig

1. Cyflwyniad

- 1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion yn ymwneud â rheolaeth, diogelwch a datblygiad yr Harbwr ac i dderbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion yn ymwneud a Harbwr Porthmadog.
- 1.2 Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno diweddariad cryno i sylw'r Pwyllgor ar faterion yr Harbwr am y cyfnod Mawrth 2017 hyd at Hydref 2017 ac i dderbyn adborth gan yr Aelodau ar faterion Diogelwch a materion gweithredol yr harbwr.
- 1.3 Yn 2014 penderfynwyd gan Gabinet y Cyngor byddai'r Pwyllgorau Harbyrau Aberdyfi, Abermaw a Phwllheli yn cynnwys: -

- Hyd at 4 Aelod Lleol Cyngor Gwynedd
- Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd sydd yn dal Portffolio'r Awdurdod Harbwr
- Un Aelod Cyngor Tref/Cyngor Cymuned
- Hyd at saith aelod arall i gynrychioli gwahanol fuddiannau defnyddwyr yr harbwr

Yn ystod yr haf fe fu i'r Swyddog cefnogi aelodau ohebu gyda phob cynrychiolydd mudiadau'r harbyrau a enwir uchod yn atgoffa o'r gofyn fod mudiadau yn enwebu cynrychiolydd am y flwyddyn sydd i ddod gan hefyd anfon copi o'r cyfansoddiad a chofnodion o gyfarfod blynyddol y grwpiau perthnasol. Bydd yn hanfodol bod y wybodaeth wedi ei gyflwyno i'r Cyngor ble yn berthnasol.

Mae Pwyllgor Harbwr Porthmadog yn bwyllgor harbwr statudol ac wedi ei ffurfio yn unol â Rhan 6 (2) (a-j) Gorchymyn Diwygio Harbwr Porthmadog. Mae'r Gorchymyn yn cyfarwyddo bod yna 15 Aelod yn eistedd ar Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog. Mae rhestr gyflawn o'r grwpiau a mudiadau a fydd yn cael eu cynrychioli ar y Pwyllgor Harbwr i'w gweld yn y Gorchymyn Harbwr.

2. Angorfeydd a Cofrestru Cychod Porthmadog

- 2.1 Yn 2017/18 roedd nifer cychod ar angorfeydd yn yr Harbwr fel a ganlyn; -
- 2.2 133 o gychod ar angorfeydd blynyddol yn 2017. Mae hyn yn cymharu gyda 129 yn 2016 a 142 yn 2016. Mae yn galonogol bod cynnydd bychan yn y niferoedd eleni.
- 2.3 Ar y cyfan, wrth gymharu holl harbyrau Cyngor Gwynedd gwelwyd cynnydd bychan mewn nifer cwsmeriaid dros y flwyddyn ddiwethaf gan gynnwys cynnydd yn Hafan Pwllheli. Yr unig eithriad o gysondeb yn y nifer gychod ar angorfeydd oedd yn Noc Fictoria yng Nghaernarfon ble gwelwyd lleihad mewn nifer gychod ar angorfa pontŵn a hyn oherwydd anawsterau angori oherwydd cynnydd yn y llaid a olygai diffyg dyfnder dwr yn y Doc.
- 2.4 Cofrestrwyd 903 o Gychod Pŵer yng Ngwynedd yn 2017 sydd yn cymharu gydag 1001 a fu wedi cofrestru yn 2016. Roedd 37 cwch wedi cofrestru yn harbwr Porthmadog gyda 30 cwch hefyd wedi cofrestru yn 2016.

- 2.5 Ym Morfa Bychan cofrestrwyd 29 cwch pŵer wrth gymharu gyda 31 a fu wedi cofrestru yn 2016.
- 2.6 Cofrestrwyd 725 Bad Dwr Personol yng Ngwynedd yn 2017. Cymharai hyn gydag 729 a fu wedi cofrestru yn 2016.

3. Cod Morwrol Diogelwch Porthladdoedd

- 3.1.1 Ym mis Tachwedd 2016 fe fu i'r Adran Drafnidiaeth o'r Llywodraeth gyhoeddi addasiadau i'r Cod Diogelwch Porthladdoedd. Mae copïau o'r cod newydd wedi ei ddosbarthu i holl Aelodau'r Pwyllgorau Ymgynghorol ac mae copi hefyd ar gael ar safle we'r MCA. Mae'r Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig yn adolygu'r Cod Diogelwch ar gyfer harbyrau bwrdeistrefol Gwynedd yn rheolaidd er sicrhau fod holl systemau diogelwch ein harbyrau yn cyd-fynd gyda gofynion y cod a disgwyliadau ein cwsmeriaid a hefyd er cydymffurfio a gofynion lechyd a Diogelwch.
- 3.1.2 Mae Adran Trafnidiaeth y Llywodraeth wedi adolygu ac wedi cyhoeddi canllawiau 'Ymarferiadau da Mewn Gweithgareddau Harbyrau' sydd yn gysylltiedig gyda'r Cod Diogelwch Morol ac mae copi o'r ddogfen ar gael i Aelodau ar gyflwyniad cais i'r gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig.
- 3.1.3 Rhwng y 19eg ac yr 21ain Medi 2017 fe gynhaliwyd arolygiad trylwyr gan archwilwyr Asiantaeth Gwylwyr y Glannau o drefniadau a systemau diogelwch presennol harbyrau bwrdeistrefol Gwynedd er sicrhau cydymffurfiaeth a'r Cod Diogelwch Porthladdoedd. Barn gychwynnol yr archwilwyr oedd bod y Cyngor yn cyd-fynd gyda'r gofynion yn gyffredinol ond bod angen addasu rhai elfennau sydd yn gysylltiedig â chofnodi dyletswyddau a nodi Deiliwr Dyletswydd. Fe fu i'r archwilwyr ymweld ag harbyrau Aberdyfi, Porthmadog a Phwllheli yn ystod yr archwiliad.
- 3.1.4 Disgwylir adroddiad ysgrifenedig buan gan yr archwilwyr yn amlinellu'r materion a fydd angen sylw gan y Cyngor. Fe sicheir bod y Pwyllgorau Ymgynghorol yn derbyn copi o'r adroddiad. Pan fydd adroddiad yr archwilwyr wedi ei dderbyn fe fydd gan y Cyngor gyfnod penodol i addasu trefniadau ac fe fydd Asiantaeth Gwylwyr y Glannau yn ail ymweld â'r gwasanaeth oddi fewn 12 mis o gyflwyno'r adroddiad ble bydd disgwyl bod argymhellion a gyflwynwyd yn yr adroddiad wedi eu gweithredu arnynt.
- 3.1.5 Yn dilyn trafodaeth gyda'r archwilwyr cytunwyd mewn egwyddor byddai yn fuddiol bod dyddiad yr ail ymweliad yn cyd-fynd a dyddiad Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr. Awgrymwyd i'r archwilwyr byddai yn fuddiol bod yr archwilwyr yn mynychu cyfarfod o Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog gan wahodd cynrychiolwyr Pwyllgorau Ymgynghorol Aberdyfi, Abermaw a Phwllheli i'r cyfarfod. Byddai hyn yn galluogi Aelodau i dderbyn gwybodaeth gan yr archwilwyr ynglŷn â phrif faterion y Cod Diogelwch a'r disgwyliad ar y Cyngor i gydymffurfio gyda'r Cod Diogelwch.
- 3.1.6 Pwysleisir na gyflwynwyd unrhyw rybudd o welliant yn ymwneud a materion diogelwch difrifol neu ddifffygion yn yr harbyrau. Nodwyd ganddynt fod cyfle i wella ar daclusrwydd oddi amgylch cei harbwr Aberdyfi gan fod yna nwyddau a rhaffau wedi eu cadw ar y cei mewn ffordd a allasai achosi risg. Ni chyflwynwyd sylw ar safon Porthmadog.

- 3.1.7 Er bod y Cod Diogelwch Porthladdoedd yn cael ei adolygu yn rheolaidd gan y gwasanaeth mae yn anorfod atgoffa Aelodau o'r Pwyllgorau Ymgynghorol o'r ddyletswydd arnynt i gyflwyno sylwadau ar addasrwydd y Cod Diogelwch ac i dderbyn sylwadau ar drefniadau gwaith yr harburau fel gallai'r Cod Diogelwch gael ei adolygu er sicrhau bod yn berthnasol i weithgareddau'r harbwr, priodoldeb lleoliadau cymhorthion mordwyo, diogelwch cyffredinol a gwaith dydd i ddydd yr harbwr.
- 3.1.8 Nid oes unrhyw fater neu achos o bryder wedi ei gyflwyno at sylw'r gwasanaeth gan Aelodau o'r Pwyllgor Harbwr yn ystod 2017 sydd yn gysylltiedig â chyfrifoldebau a dyletswyddau statudol yr Harbwr.

4. Mordwyo

- 4.1.1 Cafwyd archwiliad manwl gan archwilwyr Awdurdod Goleudai Tŷ'r Drindod ar yr 2il Awst 2017. Mewn cymhariaeth ac adroddiadau blaenorol roedd adroddiad 2017 yn cadarnhau gwelliant pellach yng nghyflwr a lleoliadau Cymhorthion Mordwyo Harbwr Porthmadog. Atodir siart yn arddangos lleoliadau cyffredol y cymhorthion mordwyo.
- 4.1.2 Mae rhaglen waith cynnal a chadw'r Cymhorthion Mordwyo'r Harbwr wedi ei gwblhau a hyn yn unol â chaniatâd a chyfarwyddwyd ac arweiniad y Pwyllgor Ymgynghorol. Fe fydd diweddariad o'r sefyllfa bresennol yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau yn y cyfarfod.
- 4.1.3 Mae 1 Rhybudd i Forwyr (Rh-15/2017) mewn grym yn harbwr Porthmadog. Mae'r rhybudd wedi ei ryddhau gan na fod bwi rhif 8 ar ei safle priodol. Mae'r bwi wedi symud at gyfeiriad Bwi rhif 6 ac fe fydd yn cael ei ail leoli ar y cyfle cyntaf.
- 4.1.4 Mae Bwiau rhif 1, rhif 3 a rhif 11 wedi eu terfynu. Pe bydd angen yna fe fydd y bwiau yn cael eu hail leoli yn y lleoliadau priodol fel bod angen. Mae'r gwasanaeth wedi hysbysu Tŷ'r Drindod.

4.2 Cynnal a chadw

- 4.2.1 Cyflwynir trefniadau a rhaglen waith ar gyfer cynnal a chadw elfennau allweddol harbwr Porthmadog gan yr Harbwr Feistr yn y cyfarfod.
- 4.2.2 Bydd yr Harbwr Feistr yn cyflwyno rhaglen waith cynnal a chadw a fu i'w gweithredu yn Harbwr Porthmadog yn ystod y cyfnod Hydref - Rhagfyr ac yn rhoi amlinell o'r rhaglen waith a fu i'w gweithredu yn y cyfnod Ionawr - Mawrth 2017. Gofynnir am adborth aelodau'r Pwyllgor am unrhyw waith ychwanegol bydd angen ei ystyried a'i gynnwys ar y rhaglen waith.

4.3 Materion Staff

- 4.3.1 Mae cyfnod cyflogaeth Cymhorthydd Harbwr Porthmadog (tymhorol) wedi dod i ben ers y 30ain Medi 2017. Er sicrhau cefnogaeth a pharhad i'r gwasanaeth ar draws y sir mae'r gwasanaeth yn ystyried ymestyn cyfnod cyflogaeth Cymhorthion Harbwr Aberdyfi, Porthmadog ac Abermaw hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2017. Fe fydd unrhyw gyfnod cyflogedig estynedig yn ddibynnol ar raglen waith yr harbwr ac wrth gwrs yn ddibynnol ar ganlyniad adolygiad cyllid ail chwarter 2017/18.
- 4.3.2 Fe fydd y tri chymhorthydd harbwr yn rhan o'r tîm ehangach y gwasanaeth ac fe fydd ymestyn y cyfnod cyflogaeth yn sicrhau bydd yn bosibl ymateb i ddigwyddiadau

arfordirol a chynorthwyo gyda thargedau rhaglen waith cynnal a chadw harbyrau Aberdyfi, Porthmadog ac Abermaw dros fisoedd y gaeaf.

4.4 **Materion Eraill**

4.4.1 **Cynllun Clwb Hwyllo Madog.** Mae cynrychiolwr Clwb Hwyllo Madog eisoes wedi cyflwyno adroddiad ar lafar yn datgan bwriad y Clwb i gyflwyno cais ar gyfer cynyddu nifer pontŵn yn yr Harbwr. Hyd yma nid oes manylion pellach wedi eu cyflwyno gan y Clwb Hwyllo. Mawr obeithir bydd diweddariad ar y cynllun arfaethedig yn cael ei gyflwyno gan y cynrychiolydd yn y cyfarfod.

4.4.2 **Ardal Borth y Gest.** Mae staff yr harbwr yn parhau i weithio tuag at wella edrychiad y safle storio cychod ym Morth y Gest.

4.4.3 **Diogelwch Parcio** - Mae'r gwasanaeth wedi cynnal asesiad risg priodol er adnabod a lleihau unrhyw risg yn ymwneud a gyrru a pharcio cerbydau ar diroedd sydd yn ffinio swyddfa'r Harbwr Feistr.

Oherwydd cynnydd yn nifer gerddwyr sydd yn cerdded o'r briffordd ar hyd ochr y cei at gyfeiriad y swyddfa ni chaniateir bod cerbydau'r gwasanaeth yn cael gyrru ar hyd y llwybr hwn. Mae llwybr amgen wedi ei adnabod sydd yn golygu gellir cael mynediad at y gweithdy heibio cefn adeilad y Ganolfan.

Bydd nifer siwrneiau yn cael eu lleihau ac ni chaniateir mynediad at yr adeilad oni bai ar adegau pan fydd angen llwytho neu dad lwytho nwyddau sydd yn gysylltiedig â gwaith yr harbwr.

Ni chaniateir i unrhyw gerbyd parcio ar y llecyn sydd yn rhedeg cyfochrog ac adeilad yr Harbwr Feistr. Mae llecynnau parcio amgen ar gael i ymwelwyr unai yn y Ganolfan neu yn y maes parcio talu ac arddangos yng nghefn yr adeilad harbwr.

5. **Materion Ariannol**

5.1 Bydd crynodeb o gyllidebau'r Harbwr a sefyllfa ariannol gyfredol hyd at ddiwedd cyfnod Chwarter 2 yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod.

5.2 Yn ystod y cyfnod, bu'n ofynnol i ymrwymo adnodd cyllid ar gyfer y canlynol: -

- Cynnal a chadw Cymhorthion Mordwyo a Llusernau
- Cynnal a chadw angorfeydd y Cyngor.
- Cwch Rheoli harbwr – buddsoddiad £20K
- Ymestyn cyfnod cyflogaeth staff
- Cynnal a chadw tiroedd a meinciau. Torri glaswellt a diogelu coed
- Cynnal a chadw sustem Teledu Cylch Cyfyng.
- Cwch Y Dwyfor. Buddsoddiad cynnal a chadw y cwch ac er cyrraedd gofynion y Cod Ymarfer. Mae'r cwch gwaith wedi ei lleoli yn barhaol yn Harbwr Porthmadog er sicrhau fod yr holl gymhorthion mordwyo ar eu safle priodol drwy'r flwyddyn

5.3 **Ffioedd a Thaliadau 2017/18.** Atodir taenlen ffioedd arfaethedig Harbwr Porthmadog a ffioedd lansio cychod a Badau Dwr Personol ar gyfer 2018. Rhagwelir bydd chwyddiant Harbyrau ar gyfer 2018/19 yn 1.78%. Er cwrdd â her cyllideb a tharged

incwm y gwasanaeth argymhellir fod ffioedd Harbwr Porthmadog yn cynyddu 2% ar gyfartaledd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19.

5.4 Pwysleisir mai drafft yn unig sydd wedi ei gyflwyno ger bron Aelodau ac mae'r ffioedd yn ddarostyngedig ar dderbyn cadarnhad gan yr Arweinydd Portffolio yn fuan yn 2018 cyn eu cyhoeddi.

5.5 Mae cynydd chwyddiant 2018/19 fel a ganlyn: -

5.5.1	Traethau	- 3.1%
5.5.2	Hafan	- 1.73%
5.5.3	Harbyrau	- 1.78%
5.5.4	Doc Fictoria	- 1.45%
5.5.5	Parc Padarn	- 3.25%
5.5.6	Parc Glynllifon	- 3.0%

6. Digwyddiadau

6.1 Cynhaliwyd y canlynol yn Harbwr Porthmadog yn 2017: -

- Digwyddiad Arddangos Beics Modur
- Digwyddiad Ras Cychod Hir Celtaidd Pwllheli i Borthmadog gan gynnwys nifer gystadlaethau eraill Cychod Hir Celtaidd a fu wedi eu trefnu drwy Glwb Hwyllo Madog. Oherwydd y tywydd bu rhaid gorffen ras Pwllheli i Borthmadog ar draeth Y Greigddu
- Nifer ymweliadau gan gwmnïau ffilmio oddi amgylch yr harbwr ac ar draeth y Greigddu.

Uned Morwrol a Pharciau Gwledig / Maritime and Country Parks Unit
Cyfanswm wedi Cofrestru Badau Dwr Personol - Total number of Personal Watercraft Registrations

<i>Blwyddyn Year</i>	<i>Harbwr Aberdyfi Harbour</i>	<i>Harbwr Abermaw Harbour</i>	<i>Harbwr Porthmadog Harbour</i>	<i>Harbwr Pwllheli/ Hafan</i>	<i>Morfa Bychan</i>	<i>Traethau Gwynedd Beaches</i>	<i>Swyddfa Office</i>	<i>Cyfanswm Total</i>
2012	9 Aberdyfi	37 Abermaw 7 Caerddaniel	25	7	85	53 Abersoch 2 Machroes 6 Morfa Nefyn 3 Nefyn 1 Trefor	390	625
2013	16 Aberdyfi 10 Tywyn	55 Abermaw 6 Caerddaniel	36	2 Harbwr 23 Hafan	129	85 Abersoch 4 Machroes 6 Morfa Nefyn 8 Nefyn 2 Trefor 4 Aberdaron	308	694
Tud. 12 2014	22 Aberdyfi 1 Tywyn	65 Abermaw 5 Caerddaniel	20	36 Total Boat Care 1 Harbwr 47 Hafan	143	88 Abersoch 5 Machroes 3 Morfa Nefyn 6 Nefyn 1 Aberdaron	250	693
2015	23 Aberdyfi 1 Tywyn	64 Abermaw a Caerddaniel	30	42 Total Boat Care 43 Hafan	157	76 Abersoch 1 Machroes 9 Morfa Nefyn 6 Nefyn 1 Aberdaron	243	696
2016	27 Aberdyfi 4 Tywyn	69 Abermaw	35	49 Total Boat Care 56 Hafan	183	101 Abersoch 20 Machroes 4 Morfa Nefyn 10 Nefyn 2 Aberdaron	174	734
2017	28 Aberdyfi 6 Tywyn	66 Abermaw	45	56 Total Boat Care 65 Hafan	165	122 Abersoch 10 Machroes TBA Morfa Nefyn 10 Nefyn 1 Aberdaron	151	725

Uned Morwrol a Pharciau Gwledig / Maritime and Country Parks Unit
Cyfanswm wedi Cofrestru Cychod Pŵer - Total number of Powerboat Registrations

<i>Blwyddyn Year</i>	<i>Harbwr Aberdyfi Harbour</i>	<i>Harbwr Abermaw Harbour</i>	<i>Harbwr Porthmadog Harbour</i>	<i>Harbwr Pwllheli Harbour</i>	<i>Morfa Bychan</i>	<i>Traethau Gwynedd Beaches</i>	<i>Swyddfa Office</i>	<i>Cyfanswm Total</i>
2012	23 Aberdyfi 4 Tywyn	48 Abermaw 18 Caerddaniel	23	23	8	70 Abersoch 4 Machroes 13 Trefor 14 Nefyn 25 Morfa Nefyn	604	877
2013	27 Aberdyfi 9 Tywyn	54 Abermaw 11 Caerddaniel	22	16 Harbwr 60 Hafan	22	92 Abersoch 14 Machroes 22 Trefor 17 Nefyn 24 Morfa Nefyn 38 Aberdaron	553	981
2014	54 Aberdyfi 8 Tywyn	64 Abermaw 11 Caerddaniel	24	118 Total Boat Care 8 Harbwr 85 Hafan	19	115 Abersoch 3 Machroes 30 Morfa Nefyn 14 Nefyn 21 Trefor 19 Aberdaron	408	1001
2015	52 Aberdyfi 3 Tywyn	71 Abermaw a Caerddaniel	30	99 Total Boat Care 5 Harbwr 104 Hafan	14	92 Abersoch 4 Machroes 23 Morfa Nefyn 13 Nefyn 16 Trefor 12 Aberdaron	449	987
2016	58 Aberdyfi 7 Tywyn	81 Abermaw	37	115 Total Boat Care 4 Harbwr 119 Hafan	31	101 Abersoch 71 Machroes 27 Morfa Nefyn 14 Nefyn 10 Aberdaron	336	1011
2017	53 Aberdyfi 9 Tywyn	66 Abermaw	37	100 Total Boat Care 2 Harbwr 117 Hafan	29	125 Abersoch 40 Machroes TBC Morfa Nefyn 19 Nefyn 11 Aberdaron 6 Trefor	289	903

Uned Morwrol / Maritime Unit
Ystadegau angorfeydd – Mooring statistics

<i>Harbwr Harbour</i>	<i>Nifer o Angorfeydd Available no of moorings</i>	<i>Preswylydd Occupancy</i>	<i>Preswyl yng Ngwynedd Residing in Gwynedd</i>	<i>Eraill Others</i>
<i>Aberdyfi 2011</i>	120	95 (79.2%)	45 (47.4%)	50 (52.6%)
<i>Aberdyfi 2012</i>	120	86 (71.7%)	37 (43.0%)	49 (57.0%)
<i>Aberdyfi 2013</i>	120	80 (66.7%)	40 (50.0%)	40 (50.0%)
<i>Aberdyfi 2014</i>	120	75 (62.5%)	35 (46.7%)	40 (53.3%)
<i>Aberdyfi 2015</i>	120	77 (64.2%)	35 (45.5%)	42 (54.5%)
<i>Aberdyfi 2016</i>	120	79 (65.8%)	36 (45.6%)	43 (54.4%)
<i>Aberdyfi 2017</i>	120	78 (65.0%)	36 (46.2%)	42 (53.8%)
<i>Abermaw 2011</i>	140	94 (67.1%)	57 (60.6%)	37 (39.4%)
<i>Abermaw 2012</i>	140	91 (65.0%)	55 (60.4%)	36 (39.6%)
<i>Abermaw 2013</i>	140	92 (65.7%)	55 (59.8%)	37 (40.2%)
<i>Abermaw 2014</i>	140	82 (58.6%)	54 (65.9%)	28 (34.1%)
<i>Abermaw 2015</i>	140	93 (66.4%)	63 (67.7%)	30 (32.3%)
<i>Abermaw 2016</i>	140	88 (62.9%)	60 (68.2%)	28 (31.8%)
<i>Abermaw 2017</i>	140	86 (61.4%)	59 (68.6%)	27 (31.4%)
<i>Porthmadog 2011</i>	238	173 (72.7%)	123 (71.1%)	50 (28.9%)
<i>Porthmadog 2012</i>	238	164 (72.7%)	38 (23.2%)	126 (76.8%)
<i>Porthmadog 2013</i>	238	162 (68.1%)	45 (27.8%)	117 (72.2%)
<i>Porthmadog 2014</i>	238	157 (66.0%)	44 (28.0%)	113 (72.0%)
<i>Porthmadog 2015</i>	238	140 (58.8%)	44 (31.4%)	96 (68.6%)
<i>Porthmadog 2016</i>	238	129 (54.2%)	47 (36.4%)	82 (63.6%)
<i>Porthmadog 2017</i>	238	133 (55.9%)	53 (39.8%)	80 (60.2%)
<i>Pwllheli 2011</i>	181	121 (66.9%)	62 (51.2%)	59 (48.8%)
<i>Pwllheli 2012</i>	121	90 (74.4%)	31 (34.4%)	59 (65.6%)
<i>Pwllheli 2013</i>	114	84 (73.7%)	59 (70.2%)	25 (29.8%)
<i>Pwllheli 2014</i>	114	91 (79.8%)	47 (51.6%)	44 (48.4%)
<i>Pwllheli 2015</i>	114	87 (76.3%)	57 (65.5%)	30 (34.5%)
<i>Pwllheli 2016</i>	114	58 (50.9%)	27 (46.6%)	31 (53.4%)
<i>Pwllheli 2017</i>	81	60 (74.1%)	28 (46.7%)	32 (53.3%)

<i>Hafan 2011</i>	410	363 (88.5%)	78 (21.5%)	285 (78.5%)
<i>Hafan 2012</i>	410	339 (82.7%)	75 (22.1%)	264 (77.9%)
<i>Hafan 2013</i>	410	302 (73.7%)	68 (22.5%)	234 (77.5%)
<i>Hafan 2014</i>	409	293 (71.6%)	51 (17.4%)	242 (82.6%)
<i>Hafan 2015</i>	409	292 (71.4%)	56 (19.2%)	236 (80.8%)
<i>Hafan 2016</i>	409	287 (70.1%)	55 (19.2%)	232 (80.8%)
<i>Hafan 2017</i>	409	306 (74.8%)	57 (18.6%)	249 (81.4%)
<i>Doc Fictoria 2011</i>	48	48 (100.0%)	17 (35.4%)	31 (64.6%)
<i>Doc Fictoria 2012</i>	100	97 (97.0%)	32 (33.0%)	65 (67.0%)
<i>Doc Fictoria 2013</i>	100	100 (100.0%)	27 (27.0%)	73 (73.0%)
<i>Doc Fictoria 2014</i>	100	100 (100.0%)	25 (25.0%)	75 (75.0%)
<i>Doc Fictoria 2015</i>	100	100 (100.0%)	21 (21.0%)	79 (79.0%)
<i>Doc Fictoria 2016</i>	100	92 (92.0%)	19 (20.7%)	73 (79.3%)
<i>Doc Fictoria 2017</i>	100	92 (92.0%)	16 (17.4%)	76 (82.6%)

Uned Morwrol a Pharciau Gwledig

Ystadegau Cychod Pŵer v's Cychod Hwyllo a Rhestr Aros - Powerboats v's Sailing Boats and Waiting List

<i>Harbwr/Harbour Marina</i>	<i>Cyfanswm Nifer Angorfeydd Total number available moorings</i>	<i>Cyfanswm Cychod ar Angorfeydd Total number of boats on mooring</i>	<i>Nifer Cychod Pŵer Total number Powerboats</i>	<i>Nifer Cychod Hwyllo Total number sailing boats</i>	<i>Canran (%) Pŵer V's hwyllo Percentage Power v's Sail</i>
Harbwr Aberdyfi 12	120	86	54	32	62.8% Pwer 37.2% Hwyllo
Harbwr Aberdyfi 13	120	80	54	26	67.5% Pwer 32.5% Hwyllo
Harbwr Aberdyfi 14	120	75	53	22	70.7% Pwer 29.3% Hwyllo
Harbwr Aberdyfi 15	120	77	53	24	68.8% Pwer 31.2% Hwyllo
Harbwr Aberdyfi 16	120	79	55	24	69.6% Pwer 30.4% Hwyllo
Harbwr Aberdyfi 17	120	78	56	22	71.8% Pwer 28.2% Hwyllo
Harbwr Abermaw 12	140	91	57	34	62.6% Pwer 37.4% Hwyllo
Harbwr Abermaw 13	140	92	62	30	67.4% Pwer 32.6% Hwyllo
Harbwr Abermaw 14	140	82	54	28	65.9% Pwer 34.1% Hwyllo
Harbwr Abermaw 15	140	93	60	33	64.5% Pwer 35.5% Hwyllo
Harbwr Abermaw 16	140	88	59	29	67.0% Pwer 33.0% Hwyllo
Harbwr Abermaw 17	140	86	55	31	64.0% Pwer 36.0% Hwyllo
Harbwr Porthmadog 12	238	164	57	107	34.8% Pwer 65.2% Hwyllo
Harbwr Porthmadog 13	238	162	59	103	36.4% Pwer 63.6% Hwyllo

Tud. 16

Harbwr Porthmadog 14	238	157	54	103	34.4% Pwer 65.6% Hwyllo
Harbwr Porthmadog 15	238	140	45	95	32.1% Pwer 67.9% Hwyllo
Harbwr Porthmadog 16	238	129	41	88	31.8% Pwer 68.2% Hwyllo
Harbwr Porthmadog 17	238	133	41	92	30.8% Pwer 69.2% Hwyllo
Harbwr Pwllheli 12	126	90	33	57	36.7% Pwer 63.3% Hwyllo
Harbwr Pwllheli 13	114	87	39	48	44.8% Pwer 55.2% Hwyllo
Harbwr Pwllheli 14	114	91	36	55	39.6% Pwer 60.4% Hwyllo
Harbwr Pwllheli 15	114	87	46	41	52.9% Pwer 47.1% Hwyllo
Harbwr Pwllheli 16	114	58	18	40	31.0% Pwer 69.0% Hwyllo
Harbwr Pwllheli 17	114	60	19	41	31.7% Pwer 68.3% Hwyllo
Hafan Pwllheli 12	410	339	174	165	51.3% Pwer 48.7% Hwyllo
Hafan Pwllheli 13	410	302	153	149	50.7% Pwer 49.3% Hwyllo
Hafan Pwllheli 14	409	293	139	154	47.4% Pwer 52.6% Hwyllo
Hafan Pwllheli 15	409	292	138	154	47.3% Pwer 52.7% Hwyllo
Hafan Pwllheli 16	409	287	137	150	47.7% Pwer 52.3% Hwyllo
Hafan Pwllheli 17	409	306	144	162	47.1% Pwer 52.9% Hwyllo
Doc Fictoria 12	100	97	39	58	40.2% Pwer 59.8% Hwyllo
Doc Fictoria 13	100	100	37	63	37.0% Pwer 63.0% Hwyllo

Tud. 17






	Doc Fictoria 14	100	100	36	64	36.0% Pwer 64.0% Hwyllo
	Doc Fictoria 15	100	98	34	64	34.7% Pwer 65.3% Hwyllo
	Doc Fictoria 16	100	92	34	58	37.0% Pwer 63.0% Hwyllo
	Doc Fictoria 17	100	92	28	64	30.4% Pwer 69.6% Hwyllo
	Cyfanswm 12	1134	867	414	453	47.8% Pwer 52.2% Hwyllo
	Cyfanswm 13	1122	823	416	407	50.5% Pwer 49.5% Hwyllo
	Cyfanswm 14	1121	798	372	426	46.6% Pwer 53.4% Hwyllo
	Cyfanswm 15	1121	787	376	411	47.8% Pwer 52.2% Hwyllo
Tud. 18	Cyfanswm 16	1121	733	344	389	46.9% Pwer 53.1% Hwyllo
	Cyfanswm 17	1121	755	343	412	45.4% Pwer 54.6% Hwyllo

HARBWR PORTHMADOG HARBOUR

Cymhariaeth o Ystadegau Cychod

Comparison of Boat Statistics

	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Nifer o Gychod / Number of Boats	164	162	157	140	129	133
Cyfanswm Hydoedd / Total Overall Length	1315.05	1311.37	1260.68	1150.60	1055.12	1082.74
Cyfartaledd Hyd / Average Length	8.02	8.09	8.03	8.22	8.18	8.14
Cyfanswm Dyfnder / Total Draught	150.42	148.32	141.74	137.69	127.50	131.16
Cyfartaledd Dyfnder / Average Draught	0.92	0.92	0.90	0.98	0.99	0.99



CYMHARIAETH O YSTADEGAU CYCHOD YM MHOB HARBWR 2017






COMPARISON OF BOAT STATISTICS AT EACH HARBOUR 2017



Harbwr Harbour	Nifer o Gychod Number of Boats	Cyfanswm Hydoedd Total Overall Length	Cyfartaledd Hyd Average Length	Cyfanswm Dyfnder Total Draught	Cyfartaledd Dyfnder Average Draught
Abermaw	86	606.63	7.01	74.56	0.87
Aberdyfi	78	515.02	6.60	58.60	0.75
Porthmadog	133	1082.74	8.14	131.16	0.99
Pwllheli	60	457	7.62	53.58	0.97
Cyfansymiau holl harbrau Totals of all harbours	357	2661.39	29.37	317.90	3.58
Cyfartaleddau holl harbrau Averages of all harbours	89.25	665.35	7.34	79.48	0.90

Darlun o ystadegau cychod ym mhob harbwr.

Analysis of boat statistics at each harbour.



Harbwr Porthmadog Harbour

2018/19

Prisiau yn cynnwys TAW	2018-19	2018-19	Prices include VAT
<i>Er manteisio ar y ffi 'lleol' mae yn hanfodol fod daliwr yr angorfa wedi bod yn breswyl yn barhaol a llawn amser yng Ngwynedd am y bum mlynedd diwethaf.</i>	Lleol Local	Eraill Others	<i>For a 'local' rate to apply the applicant must have been resident in Gwynedd on a permanent and full time basis for the previous five years</i>
Tollau Harbwr y fedr (Ffi blynyddol. Pob cwch)	41.62	41.62	Harbour Dues per meter (Annual fee. All vessels)
Ffi Trwydded Angorfa Stad Y Goron-pob angorfa (Eithrwyd TAW)	25.50	25.50	Crown Estate Mooring License-all moorings (VAT exempt)
Rhent Angorfa Dŵr Dwfn + Tollau Harbwr Ardal 1	401.29	494.76	Deep Water Mooring Rental + Harbour Dues Area 1
Rhent Angorfa Dŵr Dwfn + Tollau Harbwr Ardal 2	373.88	470.08	Deep Water Mooring Rental + Harbour Dues Area 2
Rhent Angorfa Dŵr Dwfn + Tollau Harbwr Ardal 3	346.44	439.91	Deep Water Mooring Rental + Harbour Dues Area 3
Rhent Angorfa Gwlyb + Tollau Harbwr Ardal 1	360.84	453.62	Wet Mooring Rental + Harbour Dues Area 1
Rhent Angorfa Gwlyb + Tollau Harbwr Ardal 2	333.41	425.89	Wet Mooring Rental + Harbour Dues Area 2
Rhent Angorfa Gwlyb + Tollau Harbwr Ardal 3	305.99	401.50	Wet Mooring Rental + Harbour Dues Area 3
Rhent Angorfa Sych + Tollau Harbwr Ardal 1	234.80	290.96	Drying Mooring + Harbour Dues Area 1
Rhent Angorfa Sych + Tollau Harbwr Ardal 3	179.95	236.11	Drying Mooring + Harbour Dues Area 3
Trwydded Angorfa - Angorfeydd Preifat (Angorfeydd ôl a blaen yn unig) yn cynnwys Borth y Gest	56.10	56.10	Mooring License – Private Moorings per mooring (Fore and aft moorings only) including Borth y Gest
<i>Cwch ymwelwyr – Dyddiol neu rhan o ddiwrnod</i>			<i>Visiting Vessels – Daily or part of day</i>
Cwsmeriaid Harbwr/Marina Cyngor Gwynedd	6.00		Gwynedd Council Harbour/Marina Clients
Pob Cwch Ymweld Arall		8.00	All Other Visiting Vessels
<i>Ardal 4 Borth-y-Gest</i>			<i>Area 4 Borth-y-Gest</i>
Pris y fedr am flwyddyn	24.48	42.84	Price per meter per annum
Cychod Masnachol (Cofrestredig) Pris y D.G dyddiol neu rhan diwrnod	1.02	1.02	Commercial Vessels (Registered) Price per G.R.T per day or part of day
Trwydded Parcio a Lansio – uchafswm 50 llestr	1771.08	-	Park and Launch License – max 50 vessels
Lansio cychod eraill – fel ffioedd lansio traethau	-	-	Launching fees – as per beach launching fees
Gaeafu ar ddŵr yr Harbwr + 25% o'r Tollau Harbwr	189.72	189.72	Vessels on winter moorings + 25% of Harbour Dues
Diddymu cais angorfa. Gorddewisol	Rheol 1/18	Rule 1/18	Cancellation of mooring (Discretionary)

Mynediad Cerbydau Traeth Morfa Bychan a Maes Parcio Machroes
Morfa Bychan Beach Entry and Machroes Parking

Tud. 23

Cerbydau – Yn Cynnwys TAW	2016-17	2017-18	2018-19	Vehicles – Including VAT
Ceir fesul diwrnod: 1af Ebrill-30 Mehefin	5.00	5.00	5.00	Per car per day: 1 April-30 June inclusive
Ceir fesul diwrnod: 1af Gorffennaf-31 Awst	5.00	5.00	5.00	Per car per day: 1 July-31 August inclusive
Ceir fesul diwrnod: 1af Medi -30 Medi	5.00	5.00	5.00	Per car per day: 1 September-30 September
Cartref symudol / Carafan fawr y dydd (Y Pasg – 30 ^{ain} o Fehefin a 1 ^{af} o Fedi - 30 ^{ain} o Fedi)	N/A	N/A	N/A	Motor home / large caravans per day (Easter – 30 th of June and from September 1 st -30 th September)
Cartref symudol / Carafan fawr y dydd: 1af Ebrill-30 Mehefin	10.00	10.00	10.00	Motor home / large caravans per day 1 April-30 June inclusive
Cartref symudol / Carafan fawr y dydd: 1af Gorffennaf-31 Awst	10.00	10.00	10.00	Motor home / large caravans per day 1 July-31 August inclusive
Cartref symudol / Carafan fawr y dydd: 1af Medi -30 Medi	10.00	10.00	10.00	Motor home / large caravans per day 1 September-30 September
Bws mini	10.00	10.00	10.00	Minibus, light wagon
Gwasanaeth tynnu allan cerbyd y Cyngor	50.00	50.00	50.00	Council Patrol Vehicle Service tow out
Ol-gerbyd gyda canws/hwylfyrdd/Cwch Hwyllo	10.00	10.00	12.00	Sailboat/Canoes/windsurf trailer
Hawlen tymhorol parcio ar draeth Morfa Bychan. (Mynediad a parcio cerbydau yn unig – dim cychod. Trigolion parhaol Gwynedd yn unig).	45.00	45.00	47.00	Season Permit to Morfa Bychan beach. (Gwynedd permanent residents - cars only –no boats)
		+		
Hawlen tymhorol parcio ar draeth Morfa Bychan. Di breswyl yng Ngwynedd - ceir yn unig.	55.00	55.00	57.00	Season Permit to Morfa Bychan beach. Non residents - cars only.
Hawlen tymhorol Maes Parcio Machroes. Fesul cerbyd - ceir yn unig.	48.00	60.00	60.00	Season Permit for Machroes Car Park Per vehicle - cars only.

Uned Morwrol a Pharciau Gwledig – Maritime and Country Parks Unit

FFIOEDD A THALIADAU CYFFREDINOL / GENERAL FEES AND CHARGES

Prisiau cynnwys TAW	2016-17	2017-18	2018-19	Prices include VAT
Rhaff cysylltiol a bwi codi	Diddymu Withdrawn	Diddymu Withdrawn	Diddymu Withdrawn	Link line and pickup buoy
Gosod rhaffau angorfeydd	Diddymu Withdrawn	Diddymu Withdrawn	Diddymu Withdrawn	Fitting of mooring lines
Ffi Cytundeb Angorfa Trefor (fesul llestr)	49.03	50.02	51.00	Trefor Mooring Fee Agreement (per vessel)
Trwydded Cychwyr - Pwer (Eithrwyd TAW)	57.22	65.00	67.00	Boatman's Licence - Power (VAT Exempt)
Trwydded Perchennog - Pwer (Eithrwyd TAW)	67.63	70.00	72.00	Proprietor's Licence - Power (VAT Exempt)
Hawlen Cwch Gweini Y Felinheli	-----	20.00	20.00	Y Felinheli Yacht Tender Permit
Trwydded Angorfa Stad Y Goron (Eithrwyd TAW)	-----	25.00	25.50	Crown Estate Mooring License (VAT Exempt)

Ffioedd Lansio a Chofrestru Cychod Pŵer & Badau Dŵr Personol
Powerboats & Personal Watercraft Launching and Registration Fees

01/04/2018 – 31/03/2019

Holl ffioedd yn cynnwys TAW / All fees inclusive of VAT

	Ffi Adnewyddiad (Trwyddedau Bach)	2018/19	Renewal Fees (Small Permits)
	Ail-cofrestru Blynyddol	£30.00	Annual Re-registration
	Ceisiadau Llestr Newydd (Trwyddedau Mawr a Bach)		New Vessel Applications (Large and Small Permits)
	Cofrestru Blynyddol	£40.00	Annual Registration
	Ffi Lansio		Launching Fees
	Lansio dyddiol - Llithrfeydd/Traethau Cyffredinnol Lansio dyddiol - Traeth Morfa Bychan (yn cynnwys parcio)	£10.00 £13.00	Daily launch – General Slipways/Beaches Daily launch – Morfa Bychan Beach (includes parking)
Tud. 25	Trwydded Lansio Blynyddol (1 Ebrill – 31 Mawrth) <u>Cynnwys Ffi Cofrestru</u>	£140.00	Annual Launching Permits (1 April – 31 March) <u>Inclusive of Registration Fee</u>
	<p align="center">Only Postal Applications are accepted at the Main Council Offices in Pwllheli. In Person applications will be processed on the day at any of the Council's harbour offices, or during the summer season at the main resort beaches.</p>		
	Trosglwyddo / Ailddodiad		Transfer / Replacement
	Ceisiadau drwy'r post yn unig i <u>Swyddfa Forwrol y Cyngor yn Mhwllheli</u>	£40.00	Postal application only to the <u>Council Maritime Office in Pwllheli</u>
	Cychod llai na 10 HP		Vessels under 10 HP
	Ffi Cofrestru Blynyddol – <u>Ceisiadau Mewn Person yn Unig</u> Yn Swyddfeydd yr Harbyrau neu ar y Prif Draethau gyda'r cwch ar gael er ei archwilio	£25.00	Annual Registration Fee – <u>In Person Application Only</u> At the Harbour Offices or at the main Resort Beaches, with the vessel available for inspection